

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion
Gwledig

8 Hydref 2018

Annwyl Lesley,

SL(5)248 - Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Dirymiadau Amrywiol) 2018

Yn ein cyfarfod ar 17 Medi 2018, trafodwyd Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Dirymiadau Amrywiol) 2018 ac yna, ar 21 Medi, cyflwynwyd **adroddiad** i'r Cynulliad.

Fel y gwyddoch, byddwn yn cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar offerynnau a wneir yn Saesneg yn unig. Rydym yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac, ar hyn o bryd, rydym yn holi'r pwyllgorau cyfatebol yn Senedd y DU ynghylch y mater hwn.

Fodd bynnag, fel arfer, bydd y Memorandwm Esboniadol yn rhoi manylion neu resymau dros wneud yr offeryn yn Saesneg yn unig. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud pam nad oes unrhyw wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol sy'n esbonio pam mae'r offeryn hwn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir



Mick Antoniw AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

